



# HM Government

Yn dilyn cyhoeddiad gan Ganghellor y Trysorlys ar 29 Gorffennaf 2024, ni fydd y diwygiadau arfaethedig i ffioedd gofal cymdeithasol oedolion, a etifeddwyd gan y llywodraeth flaenorol, yn cael eu gweithredu ym mis Hydref 2025.

## **Adeiladu'n Ôl yn Well: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan y Prif Weinidog  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Medi 2021



© Hawlfraint y goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](https://www.gov.uk/official-documents).

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn [hsc@cabinetoffice.gov.uk](mailto:hsc@cabinetoffice.gov.uk).

ISBN 978-1-5286-2857-0

E02669460 09/21

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys isafswm cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# CYNNWYS

4

3

## Rhagair



### **Prif Weinidog y Gwir Anrhydeddus Boris Johnson, AS**

Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn her na welwyd ei thebyg o'r blaen. Mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus gwaethaf ers canrif wedi cael effaith ddwys ar y GIG. Mae staff wedi trin mwy na hanner miliwn o gleifion COVID-19 dros y 18 mis diwethaf yn yr ysbyty yn unig - gan ddarparu gofal rhagorol i'r rheini sy'n dioddef cyflyrau newydd, cymhleth ac weithiau gwanychol iawn.

Mae'r pandemig wedi bwrw goleuni ar broblemau cronig yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol, ac wedi gwaethygu llawer ohonynt. Er enghraifft, pan dorrodd COVID-19 allan, roedd miloedd o welyau ysbyty wedi'u llenwi â phobl a allai fod wedi cael gofal gwell mewn man arall.

Mae'r problemau hyn yn ei gwneud hi'n anoddach o lawer rheoli'r pwysau sydd, yn anochel, wedi cronni mewn rhannau eraill o'r system o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r angen i drin cleifion COVID-19 wedi cyfrannu at amseroedd sy'n gwaethygu am ofal nad yw'n ofal COVID-19. Cyn y pandemig, roedd naw o bob deg yn aros llai na 25 wythnos yn Lloegr, ond mae hynny bellach wedi codi i 44 wythnos. Mae nifer cleifion y GIG sy'n aros am brofion, llawfeddygaeth a thriniaeth arferol yn Lloegr yn uwch nag erioed o 5.5 miliwn a gallai o bosibl gyrraedd 13 miliwn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae gwasanaethau iechyd mewn rhannau eraill o'r DU wedi wynebu heriau tebyg.

Ni ddaeth tua saith miliwn o gleifion yn Lloegr ymlaen i gael triniaeth yn ystod y pandemig - ac mae'n iawn y dylid eu gweld yn awr a chael y driniaeth sydd ei hangen arnynt. Felly er bod staff gweithgar y GIG yn gwneud eu gorau, amcangyfrifwyd y gallai gymryd hyd at ddegawd i'r GIG glirio ôl-groniadau triniaeth heb weithredu ar y cyd.

Mae'n rhaid inni hefyd fynd i'r afael â'r heriau ym maes gofal cymdeithasol oedolion. Mae'r pandemig wedi rhoi pwysau sylweddol ar y sector. Ond hyd yn oed cyn y pandemig roedd problemau yn y sector. Roedd yn ofynnol i bobl yn Lloegr dalu am eu holl anghenion gofal yn llawn, hyd at £23,250, ac ar yr adeg honno byddai'r wladwriaeth yn dechrau darparu rhywfaint o gefnogaeth. Ar adeg a oedd eisoes yn anodd yn eu bywydau, roedd pobl a oedd yn dioddef cyflyrau meddygol fel dementia yn wynebu colli eu cynilion bywyd. Mae llywodraethau olynol wedi addo diwygio'r system ond nid oes yr un ohonynt wedi sicrhau newid tymor hir.

Felly mae'n rhaid i ni ddilyn yr un dull pellgyrhaeddol â'r Llywodraeth a sefydlodd y GIG a'r wladwriaeth les fodern ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae'n rhaid inni ddilyn prosiect cyfatebol ein hoes, cefnogi'r GIG, diwygio gofal cymdeithasol oedolion a chreu system integredig newydd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i'n pobl. A dyna fydd y Llywodraeth hon yn ei wneud.

Byddwn yn darparu buddsoddiad newydd sylweddol - gan leihau arosiadau hir am y profion a'r driniaeth sydd eu hangen ar bobl.

Byddwn yn dod â'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd yn agosach - fel bod pobl yn derbyn gofal yn y lle mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, naill ai yn yr ysbyty, mewn gofal neu gartref.

Byddwn yn amddiffyn unigolion a theuluoedd rhag costau gofal anrhagweladwy a allai fod yn drychinebus - fel na fydd yn rhaid i unrhyw berson cymwys, o Hydref 2023, sy'n dechrau gofal cymdeithasol oedolion dalu mwy na £86,000 am ofal personol dros eu hoes.

Byddwn yn cydnabod y cyfraniad rhyfeddol a wnaeth staff iechyd a gofal cymdeithasol wrth helpu'r wlad trwy'r pandemig - yn rhannol trwy sicrhau bod ganddynt y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae hwn yn fuddsoddiad digynsail mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n un y dylem i gyd dderbyn peth cyfrifoldeb personol am ei ddarparu. Ar gyfer ein dyfodol ein hunain ac i ofalu am ein hanwyliaid. Byddai gwneud fel arall a dibynnu'n llwyr ar y wladwriaeth i gamu i mewn trwy hyd yn oed mwy o fenthyca yn gwanhau'r clymau sy'n dal teuluoedd a chymdeithas â'i gilydd.

Felly mae'n iawn y dylem gyflwyno Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol er budd y DU gyfan, gyda chyllid newydd i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Nid oes eisiau codi trethi ar un llywodraeth, ond ni ddylent esgeuluso eu dyletswydd gofal i'w dinasyddion chwaith. Felly mae'n rhaid i ni weithredu i adeiladu system iechyd a gofal sy'n adlewyrchu disgleirdeb y staff sy'n gweithio ynddi.

Mae'r GIG yn destun balchder enfawr i'r genedl. Byddwn yn sicrhau ei fod yn parhau i fod.

**Y Gwir Anrhydeddus Boris Johnson, AS**

Prif Weinidog

## Cyflwyniad

1. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol o'r radd flaenaf ledled y DU. Mae ymateb gwasanaethau cyhoeddus y genedl i bandemig COVID-19 yn destun balchder rhyfeddol. Cydnabuwyd hyn trwy ddyfarnu'r George Cross i wasanaethau iechyd gwladol y DU.
2. Mae'r GIG wedi arwain yr ymateb i COVID-19 ac yn parhau i yrru'r broses o gyflwyno brechlyn. Er mwyn amddiffyn staff a chleifion, a brwydro yn erbyn y risg o haint, ailffurfweddiwyd wardiau ysbyty ac ystafelloedd aros i leihau trosglwyddiad y firws, a darparodd y Llywodraeth biliynau o eitemau Offer Amddiffynnol Personol (PPE). Fe wnaeth y Llywodraeth hefyd ehangu capasiti gwelyau ysbyty yn gyflym i drin cleifion COVID-19 ac, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, sefydlodd ddeg ysbyty Nightingale yn gyflym ledled y DU. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i gyflawni'r Rhaglen Brofi Genedlaethol, gyda gallu profi dyddiol ledled y DU ar hyn o bryd yn sefyll ar fwy na 600,000 o brofion PCR y dydd, gyda chymorth saith labordy Goleudy ledled y DU. Mae'r rhaglen hon wedi darparu dros 166 miliwn o brofion hyd yma i ddinasyddion y DU ar draws 1100 o safleoedd prawf. Rydym hefyd wedi arwain y byd gyda'n rhaglen frechlyn - o ddyluniad cychwynnol AstraZeneca, i wirfoddolwyr cyhoeddus ar gyfer treialon brechlyn, i weithgynhyrchu yn Lloegr a photelu yng Nghymru. Roedd yr ymdrech anhygoel hon yn golygu bod y DU yn un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i ddechrau brechu ein dinasyddion a, chan weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, rydym bellach wedi brechu mwy na 48 miliwn o bobl ledled y DU.
3. Achosodd y pwysau gan y pandemig COVID-19 darfu sylweddol ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Yn anochel, gwnaeth ymdrechion aruthrol y rhai ar y rheng flaen i ymateb i'r pandemig a chyflwyno'r rhaglen frechlyn leihau'r gallu i ymateb i ofal nad yw'n gysylltiedig â COVID-19. Er enghraifft, mae 5.5 miliwn o bobl yn Lloegr bellach yn aros am driniaeth nad yw'n argyfwng, o leiaf 900,000 yn fwy na chyn y pandemig, ac mae amseroedd aros cyfartalog y GIG dros ddeng wythnos, i fyny tua 40 y cant ers cyn y pandemig.
4. Mae effaith y pandemig hefyd wedi cynyddu pwysau ar gyllid ehangach y GIG. Roedd llawer o'r cynnydd hwnnw dros dro, ond mae disgwyl i'r pwysau sylfaenol adeiladu o ganlyniad i newidiadau demograffig, effaith hirdymor COVID-19, costau gofal cynyddol ac ôl-groniadau'r GIG. Mae'r SYG yn amcangyfrif bod gwariant Llywodraeth y DU ar iechyd wedi cynyddu tua 25 y cant yn 2020, y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn o bell ffordd ers i'r gyfres SYG ddechrau ym 1997<sup>1</sup>. Mae'n rhaid i'r GIG gael ei roi ar sylfaen fwy cynaliadwy fel y gall ymateb i heriau'r 21<sup>ain</sup> ganrif.
5. Mae gofal cymdeithasol yn rhan annatod o'n cymdeithas a'n heconomi. Mae gofal cymdeithasol oedolion yn cynnwys gwaith cymdeithasol, gofal personol a chymorth ymarferol i oedolion iau a hŷn dros 18 oed sydd ag anabledd corfforol, anabledd dysgu, salwch corfforol neu feddyliol. Mae hefyd yn cynnwys diogelu ar gyfer y rhai sydd mewn

---

<sup>1</sup> SYG, 2021. Ar gael yn: <[Gwariant gofal iechyd, amcangyfrifon dros dro Cyfrifon Iechyd y DU: 2020](#)>

peryl o niwed a cham-drin, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol, yn ogystal â chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae tua 950,000 o oedolion yn Lloegr yn derbyn rhyw fath o gymorth gofal cymdeithasol tymor hir, sy'n canolbwyntio ar alluogi ansawdd bywyd parhaus ac annibynnol.

6. Rydym i gyd yn rhannu ymrwymiad i sicrhau bod oedolion sydd ag angen gofal ychwanegol yn derbyn gofal da. Ond cydnabyddir yn eang y gallai'r system gofal cymdeithasol fod yn gweithio'n well i'r bobl sy'n ei defnyddio ac i'r rhai sy'n gofalu am eraill. Mae llywodraethau olynol wedi addo diwygio, ond nid oes yr un wedi cyflawni. Mae llawer gormod o bobl yn wynebu costau anrhagweladwy am eu gofal, tra gall ansawdd y gofal a dderbynnir fod yn anghyson, er gwaethaf ymdrechion gorau ein gweithlu ymroddedig. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddiwygio'r system gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr er mwyn diwallu anghenion cynyddol gymhleth poblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal ag anghenion oedolion iau sydd angen cymorth.
7. Mae'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol hyn yn gysylltiedig â'i gilydd. Elfen bwysig mewn system well fydd integreiddio gwell rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, fel bod gofal yn mynd yn llai darniog a bod pobl yn derbyn gofal yn y lle iawn am eu hanghenion. Ni ddylai pobl ag anghenion iechyd a gofal orfod ysgwyddo'r baich o gydlynu'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio ac mae'n rhaid inni leihau nifer y bobl yn yr ysbyty a fyddai'n cael gofal gwell gartref neu mewn gofal arbenigol. Bydd integreiddio gwell hefyd yn golygu dull mwy cyfannol o ddarparu gofal sy'n dod â systemau cenedlaethol a lleol ynghyd. Ymhellach, bydd yn gofyn am ffocws parhaus ar ofal ataliol, fel bod llai o bobl ag angen gofal ysbyty a bod y rhai sy'n paratoi ar gyfer triniaeth fawr yn cael cymorth ar yr adeg iawn.
8. Mae maint yr her sy'n ein hwynebu nawr yn gofyn am ddull newydd. Felly bydd y Llywodraeth hon yn sicrhau bod oddeutu £12 biliwn ychwanegol y flwyddyn ar gael ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfartaledd dros y tair blynedd nesaf. Mae hwn yn gynnydd sylweddol a pharhaol mewn gwariant cyhoeddus a byddai'n anghyfrifol iddo beidio â chael ei ariannu'n llawn, yn enwedig ar adeg pan mae benthyca a dyled wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed.
9. Felly mae'r Llywodraeth wedi gwneud y penderfyniad anodd ond cyfrifol i godi trethi. I wneud hynny yn y ffordd decaf bosibl, bydd hyn yn cael ei ariannu gan Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol 1.25 y cant (yr Ardoll) newydd, wedi'i ddiogelu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) ac o 2023 ymlaen bydd yn ddeddfwriaethol ar wahân, a bydd hefyd yn berthnasol i unigolion sy'n gweithio uwchlaw oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cynyddu cyfraddau treth difidend 1.25 y cant, a bydd refeniw ohono'n helpu i ariannu'r pecyn hwn. O ystyried y gofynnir i drethdalwyr gyfrannu mwy, bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario'n dda ac yn mynd i ofal rheng flaen yn Lloegr, gan gynyddu effeithlonrwydd a defnyddio diwygiadau i gynyddu cynhyrchiant. Mae difidend Undeb yn golygu y bydd yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn elwa tua 15 y cant yn fwy nag a gynhyrchir gan eu preswylwyr, sy'n cyfateb i oddeutu £300 miliwn bob blwyddyn ar gyfartaledd.

10. Er bod y pecyn cyllido newydd hwn i gefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU, mae ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn nodi mesurau penodol ar gyfer Lloegr. Mae hefyd yn nodi meysydd lle rydym am weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gynorthwyo pobl o bob rhan o'r DU i fyw bywydau mwy annibynnol, iachach am gyfnod hirach.
11. Nodir mwy o fanylion am y pecyn hwn yn y penodau canlynol yn ein cynllun newydd ar gyfer gofal iechyd, ein cynllun newydd ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr a'n cynllun cyllido newydd.

## Ein cynllun ar gyfer gofal iechyd

12. Rhoddodd y pandemig bwysau digynsail ar y GIG gydag ymchwydd yn y galw am driniaeth aciwt ledled y DU. Er mwyn ymateb i'r galw hwn, roedd angen graddfa o ymdrech genedlaethol na welwyd o'r blaen yn ystod amser heddwch. Sicrhaodd ymdrechion rhyfeddol meddygon, nyrsys a staff cymorth fod y GIG yn gwrthsefyll her y pandemig, gan drin a gofalu am filiynau o bobl. Ers Mawrth 2020 mae dros 500,000 o bobl wedi cael eu derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19 yn y DU. Ar anterth yr argyfwng ym mis Ionawr 2021, roedd dros 39,000 o bobl â COVID-19 yn cael triniaeth yn yr ysbyty.
13. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi codiad cyflog o dri y cant ar gyfer dros 1.1 miliwn o weithwyr y GIG yn Lloegr am eleni, gan gydnabod eu cyfraniad eithriadol trwy gydol y pandemig. Bydd staff y GIG gan gynnwys nyrsys, parafeddygon, ymgynghorwyr a deintyddion yn Lloegr yn derbyn codiad cyflog o dri y cant ar ôl i'r Llywodraeth dderbyn argymhellion Corff Adolygu Cyflogau annibynnol y GIG (NHSPRB) a'r Corff Adolygu ar Dâl Meddygon a Deintyddion (DDRB). I nyrs ar gyflog cyfartalog, bydd hyn yn golygu £1,000 ychwanegol y flwyddyn, tra bydd llawer o borthorion a glanhawyr yn derbyn tua £540.
14. Roedd cymryd camau i sicrhau bod y GIG yn barod i drin llawer iawn o gleifion COVID-19, tra hefyd yn ad-drefnu ysbytai i leihau'r risg o haint, yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn y firws. Ynghyd â'r camau a gymerwyd gan bobl i leihau trosglwyddiad, roedd y camau hyn yn arbed bywydau ac yn golygu bod y GIG hyd yn oed ar anterth y pandemig yn hafal i'r her.
15. Cyflawnodd GIG Lloegr a Gwella, GIG yr Alban, GIG Cymru, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) yng Ngogledd Iwerddon swyddogaeth hanfodol wrth frechu'r wlad. Bydd y Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r GIG i gyflwyno'r rhaglen frechu a chynnal a chefnogi'r ymateb i'r pandemig. Bydd hyn yn golygu bod y wlad yn barod i ymateb yn gyflym i unrhyw don newydd o'r firws marwol hwn neu bandemig yn y dyfodol.
16. Mae'r newid ffocws hwn i ymateb i'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu mathau eraill o driniaeth. O ganlyniad i'r mesurau sydd eu hangen i reoli haint, gostyngodd nifer y gwelyau GIG sydd ar gael i gleifion yn Lloegr dros naw y cant ar ddechrau'r pandemig. Er gwaethaf y pwysau enfawr hyn, parhaodd y GIG i amddiffyn a blaenoriaethu triniaeth frys, fel llawfeddygaeth ar gyfer canser a llawdriniaethau achub bywyd eraill. Ond roedd gofynion y pandemig yn golygu saib dros dro o driniaeth bwysig, llai brys, a gohiriodd pobl weld eu meddyg oni bai bod yn rhaid iddynt, er mwyn helpu i amddiffyn y GIG. Mae'r galw hwn bellach yn dychwelyd ac mae'r ciwiau am driniaeth yn mynd yn hirach.
17. Yn benodol, erbyn hyn mae ôl-groniad sylweddol iawn mewn gofal dewisol, lle mae angen profion neu driniaeth heblaw argyfwng ar gleifion.
  - a. Yn Lloegr, mae 5.5 miliwn o bobl yn aros am driniaeth ar hyn o bryd, o leiaf 900,000 yn fwy na chyn y pandemig. Maent yn aros am ymyriadau yn amrywio o brofion neu sganiau i gefnogi diagnosis hyd at lawdriniaeth nad yw'n argyfwng. Mae mwy na 300,000 o bobl bellach wedi bod yn aros am dros flwyddyn am ofal

o'r fath, ac er bod yr amseroedd aros ar gyfartaledd bron i hanner yr hyn yr oeddent ar ei anterth ym mis Gorffennaf 2020 ar oddeutu deg wythnos, maent yn dal i fod tua 40 y cant yn hwy na chyn y pandemig.

- b. Yn yr Alban, mae'r rhestr aros am driniaeth cleifion mewnol wedi cynyddu o 79,000 i 97,000 ers dechrau'r pandemig. Mae 23,000 o bobl bellach wedi bod yn aros dros flwyddyn.
- c. Yng Nghymru, mae'r rhestr aros am driniaeth o'r fath wedi tyfu i 625,000, i fyny o 462,000 cyn y pandemig. Mae mwy na 200,000 o bobl wedi bod yn aros dros 36 wythnos.
- d. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhestr aros am driniaeth cleifion mewnol hefyd wedi cynyddu o 93,000 i 113,000. Mae tua 66,000 o bobl wedi bod yn aros dros flwyddyn.

18. Diolch i ymdrechion diflino staff y GIG, bu cynnydd sylweddol eisoes wrth fynd i'r afael â'r ôl-groniadau hyn. Er enghraifft, yn Lloegr, mae nifer y rhai sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty i gael triniaeth ddewisol bellach yn cynyddu; ym mis Mehefin, gostyngodd cleifion a oedd yn aros mwy na 18 wythnos am ofal dewisol fwy nag 20,000; a gostyngodd y rhai a oedd yn aros mwy na blwyddyn am ofal 30,000 am y trydydd mis yn olynol. Ond mae effaith y pandemig wedi bod yn ddifrifol a bydd yn parhau i gael ei themlo wrth i'r GIG reoli effeithiau parhaol COVID-19. Bydd mynd i'r afael â'r ôl-groniadau hyn yn cymryd mwy o amser na'r wythnosau neu'r misoedd nesaf.

19. Mae'r ymgyrch 'Helpwch Ni, Helpwch Chi' yn Lloegr yn annog cleifion i ddod ymlaen a chael mynediad at wasanaethau iechyd hanfodol os ydyn nhw'n poeni bod rhywbeth o'i le, yn enwedig os oes ganddyn nhw symptomau sy'n awgrymu y gallen nhw fod â chyflyrau mwy difrifol fel canser. Wrth i'r rhaglen frechlyn ddatblygu ac wrth i gleifion ddychwelyd, gan gynnwys y saith miliwn o bobl y byddai disgwyl iddynt ofyn am gymorth ond na wnaethant yn ystod y pandemig, mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd rhestrau aros yn tyfu ymhellach.

20. Mae effaith COVID-19 wedi cynyddu pwysau ar draws y GIG, nid dim ond ar ofal dewisol. Cyfrannodd y camau a gymerodd pobl i amddiffyn ei gilydd rhag y pandemig at ostyngiad yn y galw am A&E o dros 30 y cant yn 2020-21, gyda deg y cant yn llai o apwyntiadau meddyg teulu yn ystod 12 mis cyntaf y pandemig nac mewn blynyddoedd blaenorol, a gostyngiad amlwg mewn triniaeth ddeintyddol. Effeithiodd y pandemig hefyd ar iechyd meddwl, gyda gofynion digynsail yn cael eu gosod ar staff a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac amlygodd y baich o gyflyrau cronig ond y gellir eu hatal, yn enwedig gordewdra.

21. Felly mae ein cynllun ar gyfer gofal iechyd yn cynnwys i) mynd i'r afael â'r ôl-groniad dewisol, ii) rhoi'r GIG yn ôl ar sylfaen gynaliadwy a iii) cynyddu'r ffocws ar atal.

## Mynd i'r afael â'r ôl-groniad dewisol

22. Bydd y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad dewisol hwn yn y rhaglen ddal i fyny fwyaf yn hanes y GIG. Byddwn yn gwario £2 biliwn eleni, dwbl ein hymrwymiad blaenorol, i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwario mwy nag £8 biliwn yn y tair blynedd ganlynol rhwng 2022-23 a 2024-25. Gallai'r £9 biliwn yr ydym yn ei roi yn awr, ar ben yr £1 biliwn a gafodd ei gynnwys yn Adolygiad Gwariant 2020, gyflawni'r hyn sy'n cyfateb i oddeutu naw miliwn yn fwy o wiriadau, sganiau a thriniaethau. Bydd hefyd yn golygu y gall y GIG yn Lloegr anelu at ddarparu tua 30 y cant yn fwy o weithgaredd dewisol erbyn 2024-25 nac yr oedd cyn y pandemig, ar ôl rhoi cyfrif am effaith cynnig gofal gwell trwy drawsnewid system, a chyingor ac arweiniad. At hynny, unwaith y bydd y GIG wedi gwella o'r pandemig, dylai'r gweithgaredd fod yn gyfwerth â deg y cant yn uwch nac o dan Gynllun Tymor Hir y GIG<sup>2</sup>.
23. Bydd y Llywodraeth hefyd yn sefydlu Cronfa Technoleg Adfer Dewisol newydd gwerth £250 miliwn i alluogi technolegau blaengar a darparu cyllid o £250 miliwn i gynyddu capasiti theatr weithredol a gwella cynhyrchiant mewn ysbytai, a fydd gyda'i gilydd yn cynyddu capasiti dewisol.
24. Er mwyn helpu i sicrhau bod y nod uchelgeisiol hwn yn cael ei gyflawni, bydd GIG Lloegr a Gwelliant hefyd yn nodi'n gyhoeddus sut y bydd yn croesawu effeithlonrwydd a diwygio i geisio sicrhau'r cyllid mwyaf posibl ar gyfer gweithgaredd dewisol yn yr amlen ariannu. Heb y buddsoddiad hwn, byddai'r amseroedd aros ar gyfartaledd yn hirach. Cyflwynir y rhaglen hon trwy ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o adnoddau, cynyddu hyblygrwydd a chofleidio arloesedd.
- Bydd Dal i fyny yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o'r **adnoddau** sydd ar gael, ein cyllid a'n staff GIG gwych. Mae hynny'n golygu recriwtio a hyfforddi staff newydd y GIG, gan gynnwys cwrdd ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu 50,000 yn fwy o nyrsys. Bydd mwy o staff yn golygu amseroedd aros byrrach nag y byddai fel arall. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi dyblu'r Gronfa Adferiad Dewisol eleni i £2 biliwn, gan helpu sefydliadau'r GIG yn Lloegr i drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau a chyflymu'r broses o adfer gofal dewisol a chanser.
  - Bydd GIG Lloegr a Gwelliant yn sicrhau bod y system yn **hyblyg** fel y gall pobl gael gafael ar gyngor cyflym pan fydd ei angen arnynt. Yn ogystal â sicrhau bod cleifion ag amheuaeth o ganser a chyflyrau brys eraill yn dod ymlaen i gael mynediad at wasanaethau iechyd, bydd cyngor arbenigol ar gyfer gofal sylfaenol i alluogi rheoli gofal claf yn y lleoliad mwyaf priodol. Byddwn yn cyflwyno system newydd sy'n rhoi'r gallu i gleifion a'u gofalmwyr drefnu apwyntiadau dilynol yn ôl yr angen.
  - Mae'r rhaglen hon hefyd yn gofyn am ymrwymiad i **arloesi** a chofleidio'r cyfle i wneud pethau'n wahanol ac yn well yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu rhannu a defnyddio arbenigedd, adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd eisoes ar y gweill mewn ysbytai a gofal sylfaenol, a dysgu o'r pandemig trwy ddefnyddio clinigau rhithwir a

<sup>2</sup> Cynllun Tymor Hir y GIG, 2019. Ar gael yn: < <https://www.longtermplan.nhs.uk/> >

ffyrdd newydd o weithio, ynghyd â harneisio'r data a'r technegau diagnostig diweddaraf. Bydd yn arwain at well gofal a thriniaeth fwy diogel. Bydd y dull hwn yn cael ei gefnogi gan fwy o gapasiti triniaeth, gyda chanolfannau llawfeddygol newydd a darparu llawdriniaethau ychwanegol a gweithdrefnau eraill, gan weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat. Bydd llwybrau cleifion yn cael eu trawsnewid, gan wella maint ac ansawdd gofal cleifion trwy wasanaeth mwy effeithlon. Ar hyn o bryd mae GIG Lloegr a Gwelliant yn rhedeg menter cyflymydd adferiad dewisol gwerth £160 miliwn i dreialu dulliau newydd mewn 12 system gofal integredig a phum ysbyty plant arbenigol ledled Lloegr. Bydd y datblygiadau arloesol hyn yn bwydo i mewn i gynllun cyflawni ar gyfer cyflymu adferiad ar draws y system. Bydd yr holl ddatblygiadau arloesol hyn yn cefnogi ein gallu i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal mor effeithlon â phosibl ac yn y ffordd orau ar gyfer eu hanghenion unigol.

25. Mae'r pandemig wedi effeithio ar ddarpariaeth gofal iechyd ledled y DU. Mae angen dull unedig i rannu gwybodaeth ac arfer gorau, darparu cyngor iechyd cyhoeddus cyson a datrys problemau sy'n peri pryder ar y cyd yn yr ymateb ledled y DU i'r pandemig. Bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i rannu syniadau ar gyfer adferiad, gan osod y seiliau ar gyfer rhaglen o weithio ar y cyd i'r wlad gyfan er mwyn adeiladu'n ôl yn well.
26. Sefydliar cronfa ymchwil, arloesi a chydweithio newydd gwerth £50 miliwn i helpu i wella canlyniadau iechyd ledled y DU, yn enwedig lle maent ar eu gwannaf. Bydd y gronfa, a weinyddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Swyddfa'r Cabinet, yn cefnogi sefydliadau ymchwil a gofal iechyd mewn gwahanol rannau o'r DU i gydweithio ar brosiectau ar y cyd, i rannu arfer gorau, ac ar y cyd i ddatblygu dulliau arloesol newydd. Bydd y gronfa'n cefnogi codi'r gwastad a gosod y sylfeini ar gyfer cydweithredu mwy gweithredol, parhaus mewn gofal iechyd arloesol ledled gwledydd cartref y DU. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig, ac yn gweithio gyda sefydliadau ymchwil a gofal iechyd, ar ddyluniad y gronfa.

## **Rhoi sylfaen gynaliadwy i'r GIG**

27. Roedd ymateb y GIG i'r pandemig ledled y DU yn rhyfeddol. Er bod yn rhaid canolbwyntio ar adferiad ar unwaith, mae'r Llywodraeth hon yn benderfynol o godi gwastad canlyniadau iechyd ledled y DU a buddsoddi yn y gwasanaethau sydd bwysicaf i fywydau pobl.
28. Sicrhaodd y Llywodraeth £63 biliwn yn 2020-21 a dros £34 biliwn hyd yma eleni i gefnogi gwasanaethau iechyd. Yn Lloegr, roedd hyn yn cynnwys £500 miliwn ar gyfer adferiad iechyd meddwl yn 2021-22, sy'n cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag amseroedd aros am wasanaethau iechyd meddwl, rhoi'r cymorth iechyd meddwl sydd ei angen ar fwy o bobl a buddsoddi yng ngweithlu'r GIG. Roedd hefyd yn cynnwys £260 miliwn i barhau i dyfu ein gweithlu GIG a chefnogi ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Tymor Hir y GIG. Ym Mawrth 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd £6.6 biliwn ychwanegol i ganiatáu i GIG Lloegr a Gwelliant gynnal capasiti ac ymateb i COVID-19, ac i barhau â'r rhaglen rhyddhau o'r ysbyty, mesurau rheoli heintiau, gwasanaethau COVID hir a gwasanaethau cymorth staff y GIG. Cadarnhaodd y Gyllideb hefyd £2.4 biliwn

ychwanegol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn 2021-22 trwy fformiwla Barnett a thargedu buddsoddiad ledled yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

29. Mae'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod buddsoddiad o oddeutu £12 biliwn y flwyddyn ar gael ar gyfartaledd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer codiadau ychwanegol mewn termau real i wariant y GIG yn Lloegr y tu hwnt i'r Cynllun Tymor Hir cyfredol. Yn 2024-25, bydd yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn elwa o £1.1 biliwn ychwanegol, £700 miliwn a £400 miliwn yn y drefn honno, sy'n cynnwys gwariant ledled y DU fel brechlynnau yn ogystal â chyllid Barnett ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig. Wrth wraidd y cynlluniau hyn mae penderfyniad y Llywodraeth y dylai'r adferiad gael ei deimlo'n gyfartal gan bobl ym mhob rhan o'r wlad.

### **Canolbwyntio ar atal**

30. Er mwyn creu GIG sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif mae'n rhaid i ni gymryd agwedd hirdymor. Mae'r boblogaeth wedi tyfu, mae disgwyliad oes wedi cynyddu ac mae datblygiadau meddygol i'w croesawu wedi arwain at argaeledd triniaethau newydd. Ond mae'r boblogaeth hefyd yn dioddef o faich cyflyrau cronig y gellir eu hatal, fel gordewdra, diabetes a chlefyd y galon, sydd yn aml wedi'u crynhoi yn rhannau tlotaf cymdeithas. Mae hyn yn golygu mwy o alw am wasanaethau sy'n fwy cymhleth ac eang nac erioed o'r blaen. Dyna pam mae'r Llywodraeth hon yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ei haddewid i ddarparu 50,000 yn fwy o nyrsys, darparu 40 o ysbytai newydd a darparu 50 miliwn yn fwy o apwyntiadau practis cyffredinol yn Lloegr. Felly er bod yn rhaid i flaenoriaethau uniongyrchol y Llywodraeth ar gyfer y GIG fod yn delio â COVID-19 ac adfer yr ôl-groniad dewisol, mae ei flaenoriaeth hirdymor yn parhau i symud y GIG tuag at atal.

31. Mae'n rhaid i atal fod yn egwyddor ganolog wrth ddarparu GIG cynaliadwy a chodi'r gwastad. Mae hyn yn golygu trwsio achosion sylfaenol afiechyd sy'n cyfrannu at gynnydd mewn gwariant ar iechyd a gwaethygu canlyniadau. Mae gwella iechyd cymunedau yn hanfodol i wytnwch yn erbyn bygythiadau iechyd yn y dyfodol. Mae hyn wrth wraidd cenhadaeth y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau Newydd, ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd Newydd y DU.

32. Bydd y Llywodraeth yn archwilio troi rhaglen Archwiliad Iechyd y GIG yn Wasanaeth Atal Cenedlaethol fel y gall pobl gael mynediad at wiriadau iechyd, gan gynorthwyo unigolion i fod yn iachach a chael gafael ar y triniaethau cywir. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i GIG Lloegr a Gwelliant gyflwyno meini prawf adrodd gwariant, canlyniad a thaflywybr atal blynyddol, gan gynnwys asesiad o'r taflywybr 10 mlynedd a thaflywybrau canlyniadau (beth fydd yn digwydd i gleifion dros y degawd yn dilyn diagnosis) o'r prif afiechydon y gellir eu hatal fel diabetes.

33. Ein huchelgais yw galluogi unigolion mewn cymunedau sydd â heriau iechyd penodol i wella eu hiechyd eu hunain, cael gafael ar driniaethau achub bywyd ac adfer o'r pandemig. Bydd yn lleihau'r pwysau ar y GIG trwy rymuso unigolion ym mhob man i

newid eu hymddygiad, naill ai trwy roi'r gorau i ysmegu, cymryd mwy o ymarfer corff neu newid deietau, fel y gall pawb fyw bywydau hir, iach a chynhyrchiol.

## Ein cynllun ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr

34. Mae gofal cymdeithasol yn effeithio ar dros ddeng miliwn o bobl<sup>3</sup> yn Lloegr ar unrhyw un adeg. Mae angen cymorth gwahanol ar bobl i fyw'r bywyd sydd ei eisiau arnynt. Mae angen cymorth ar rai trwy gydol eu hoes, tra bod gan eraill anghenion sy'n datblygu'n sydyn. Daw rhai yn arbenigwyr ym mha gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, tra bydd eraill ag angen cyfranogiad ffrindiau a theulu. I lawer, mae angen gwneud penderfyniadau ar adeg unigryw anodd yn eu bywydau. Mae llawer gormod o bobl a'u teuluoedd yn atebol am filiau na allant eu rhagweld na'u fforddio. Mae eraill yn poeni am ddiffyg dewis wrth sicrhau'r cymorth sydd ei angen arnynt neu ddiffyg tai addas. Mae llywodraethau olynol wedi methu â mynd i'r afael â hyn ac ar hyn o bryd, mae'n rhaid i unrhyw un yn Lloegr sydd ag asedau dros £23,250 dalu am eu gofal yn llawn. Yn 2011, amcangyfrifodd Comisiwn annibynnol Dilnot fod tua un o bob deg oedolyn 65 oed yn wynebu costau oes o fwy na £100,000<sup>4</sup>. O ystyried costau gofal cynyddol, mae'r amcangyfrif hwnnw bellach yn un o bob saith.
35. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i greu system gofal cymdeithasol gynaliadwy i oedolion sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ochr yn ochr â'i rhaglen o ddiwygio gofal ieched yn ehangach. Er bod gwahanol systemau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon sy'n cael eu rhedeg gan y gweinyddiaethau datganoledig, bydd y Llywodraeth yn ceisio sefydlu rhaglen o waith ar y cyd i rannu arfer gorau ar draws y gwledydd cartref. Yn Lloegr, bydd y Llywodraeth yn gweithio gydag arweinwyr mewn Llywodraeth Leol a'r sector gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ogystal â Phrif Weithredwr y GIG a'r GIG, i ddatblygu a chyhoeddi Papur Gwyn ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol oedolion, a fydd yn cychwyn. trawsnewidiad unwaith mewn cenhedlaeth i ofal cymdeithasol oedolion. Bydd yn:
- cynnig dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i ddefnyddwyr gofal** - fel bod unigolion yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus a byw bywydau hapusach, iachach a mwy annibynnol am gyfnod hirach;
  - darparu gofal o ansawdd rhagorol** - lle mae gan unigolion brofiad di-dor o system ieched, gofal a chymuned integredig sy'n cydweithio ac yn cael ei ddarparu gan weithlu medrus a gwerthfawr; a
  - bod yn deg ac yn hygyrch i bawb sydd ei angen, pan fydd ei angen arnynt** - sicrhau bod ffioedd yn fwy tryloyw, bod gwybodaeth a chynghor yn hawdd eu defnyddio ac yn hawdd eu cyrraedd, ac nad oes unrhyw un yn destun costau gofal anrhagweladwy a diderfyn.
36. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol fynediad at gyllid cynaliadwy ar gyfer cyllidebau craidd yn yr Adolygiad o Wariant. Disgwylw'n y bydd pwysau demograffig a chostau uned yn cael eu talu trwy'r Dreth Gyngor, praesept gofal

<sup>3</sup> Yn cwmpasu'r rhai sy'n derbyn gofal ffurfiol ac anffurfiol, y gweithlu a gofalwyr di-dâl.

<sup>4</sup> Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chymorth, 2011. Cyllid Gofal Tecach. Adroddiad y Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chefnogaeth. [art-lein] HMSO, t.12. Ar gael yn: <  
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130221130239/http://dilnotcommission.dh.gov.uk/files/2011/07/Fairer-Care-Funding-Report.pdf>>

cymdeithasol, ac effeithlonrwydd tymor hir; bydd lefel gyffredinol cyllid Llywodraeth Leol, gan gynnwys praesept y Dreth Gyngor a gofal cymdeithasol, yn cael ei bennu yn y cylch yn yr Adolygiad o Wariant yn y ffordd arferol. Byddwn yn buddsoddi £5.4 biliwn mewn gofal cymdeithasol oedolion dros y tair blynedd nesaf i gyflawni'r ymrwymadau cyllido a diwygio'r system a nodir yn y ddogfen hon.

37. I ddechrau'r trawsnewidiad hwn mewn gofal cymdeithasol oedolion, bydd y Llywodraeth yn:

- a. cyflwyno cap ar gostau gofal personol;
- b. darparu cymorth ariannol i'r rheini heb asedau sylweddol;
- c. darparu cymorth ehangach i'r system gofal cymdeithasol, yn enwedig ein staff gofal cymdeithasol gwych; a
- ch. gwella integreiddiad systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

### **Capio costau gofal cymdeithasol oedolion**

38. O fis Hydref 2023, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cap newydd o £86,000 ar y swm y bydd angen i unrhyw un yn Lloegr ei wario ar eu gofal personol dros eu hoes. Bydd hwn yn newid seismig yn y ffordd yr ydym yn talu am ofal a bydd yn cyflawni argymhelliad craidd y Comisiwn Dilnot annibynnol. Bydd yn cael ei weithredu gan ddefnyddio deddfwriaeth sydd eisoes ar waith o dan Ddeddf Gofal 2014, sy'n cyflwyno diwygiad taliadau gofal cymdeithasol annibynnol Comisiwn Dilnot. O ganlyniad i'r cap newydd hwn, ni fydd pobl bellach yn wynebu costau gofal anrhagweladwy na ddiderfyn.

39. Bydd y diwygiadau newydd hyn yn ategu'r gwasanaeth presennol gan ganiatáu i bobl sydd ag angen gofal preswyl ohirio talu ffioedd eu cartrefi gofal fel nad ydynt yn wynebu'r straen ychwanegol o orfod rhuthro i werthu eu cartref. Mae'r system hon wedi bod ar waith ers 2015 ac mae'n golygu bod gan bobl yr hyblygrwydd i osgoi gwerthu eu cartref o fewn eu hoes. Er mwyn cefnogi'r diwygiadau hyn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i adolygu'r cynllun presennol er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd i bobl ohirio eu taliadau gofal.

40. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag annhegwch parhaus yn y system gofal cymdeithasol. O dan y system bresennol, mae pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn aml yn talu mwy na phobl sy'n cael eu hariannu trwy eu Hawdurdod Lleol am ofal cyfatebol. Am y tro cyntaf, gan ddefnyddio deddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Gofal 2014, byddwn yn sicrhau bod hunangyllidwyr yn gallu gofyn i'w Awdurdod Lleol drefnu eu gofal ar eu cyfer fel y gallant ddod o hyd i ofal gwerth gwell.

## **Astudiaeth achos - Yusuf**

Mae Yusuf yn ei 70au hwyr. Mae wedi byw ar ei ben ei hun ers i'w wraig farw o ganser ddeng mlynedd yn ôl. Pan fu hi farw, symudodd o gartref ei deulu yn Hastings i eiddo llai gwerth £180,000. O ganlyniad, mae ganddo £70,000 mewn cynilion. Mae Yusuf yn datblygu dementia, ni all ymdopi gartref bellach ac mae angen iddo symud i ofal preswyl. Mae ei iechyd sylfaenol yn dda ac yn y pen draw mae'n treulio wyth mlynedd yn byw yn y cartref preswyl. Mae cartref gofal Yusuf yn costio £700 yr wythnos.

**O dan y system bresennol**, byddai Yusuf yn gwario tua £293,000 ar ei ofal o'i asedau a'i incwm, ac o ganlyniad dim ond £72,000 sydd ar ôl mewn asedau.

**O dan y system newydd**, mae Yusuf yn taro'r cap o £86,000 ar ôl tair blynedd a phedwar mis. Nid oes angen iddo bellach gyfrannu at ei ofal personol naill ai o'i asedau na'i incwm. Y tu hwnt i hyn, dim ond tuag at gostau byw bob dydd y bydd yn rhaid iddo gyfrannu. Bellach mae ganddo £173,000, bron i 70 y cant o'i asedau gwreiddiol.

**Dros ei daith ofal gyfan, mae Yusuf yn gwario £123,000 yn llai nag o dan y system bresennol.**

## **Cymorth ariannol i bobl heb asedau sylweddol**

41. O Hydref 2023, ni fydd yn rhaid i unrhyw un ag asedau o lai na £20,000 wneud unrhyw gyfraniad am eu gofal o'u cynilion neu werth eu cartref, gan sicrhau bod y rhai sydd â'r lleiaf yn cael eu gwarchod. Bydd unrhyw un sydd ag asedau rhwng £20,000 a £100,000 yn gymwys i gael rhywfaint o gymorth prawf modd, gan helpu pobl heb asedau sylweddol. Mae'r terfyn cyfalaf uchaf newydd o £100,000 yn fwy na phedair gwaith y terfyn cyfredol o £23,250, gan sicrhau bod llawer mwy o bobl yn gymwys i gael rhywfaint o gymorth Awdurdod Lleol â phrawf modd.
42. Os oes angen gofal ar rywun, bydd Awdurdodau Lleol yn asesu i) eu hanghenion gofal a pha rai o'r anghenion hynny sy'n gymwys i gael eu diwallu gan yr Awdurdod Lleol a ii) a ddylent dderbyn cymorth ariannol i helpu gyda chostau gofal, trwy asesiad prawf modd. Fel y system gyfredol, bydd y prawf modd yn seiliedig ar gyfanswm yr asedau, gan gynnwys gwerth cartref unigolyn a'i gynilion. Fodd bynnag, os oes angen i unigolyn barhau i fyw yn ei gartref ei hun, bydd yn cael ei eithrio o'r asesiad o gyfanswm yr asedau trethadwy. Gelwir hyn yn ddiystyriad tai ac nid yw wedi newid o'r rheolau cyfredol.
43. Bydd y prawf modd newydd ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn dod i rym ym mis Hydref 2023 ar sail incwm ac arbedion unigolyn yn y ffordd ganlynol.
  - Os yw **cyfanswm asedau unigolyn dros £100,000**, mae'n rhaid talu ffioedd llawn. Yr uchafswm y bydd yn rhaid i unigolyn ei dalu dros ei oes tuag at gostau gofal personol fydd £86,000 o ganlyniad i'r cap newydd. Os yw gwerth asedau sy'n

weddi gan unigolyn yn disgyn o dan £100,000 trwy gyfrannu tuag at gostau gofal, mae'n debygol y byddant yn gymwys i gael rhywfaint o gymorth ariannol. Ar ôl cyrraedd y cap o £86,000, bydd Awdurdodau Lleol yn talu am yr holl gostau gofal personol cymwys. Ni fydd angen i unrhyw un wneud cyfraniad o'u hincwm tuag at y costau gofal hyn. Efallai y bydd pobl yn dewis "ychwanegu at" eu costau gofal trwy dalu'r gwahaniaeth tuag at wasanaeth drutach, ond ni fydd hyn yn cyfrif tuag at y cap.

- Os yw **cyfanswm asedau unigolyn rhwng £20,000 a £100,000**, mae eu Hawdurdod Lleol yn debygol o ariannu peth o'u gofal. Disgwylir i bobl gyfrannu tuag at gost eu gofal o'u hincwm, ond os nad yw hynny'n ddigonol, ni fyddant yn cyfrannu mwy nac 20 y cant o'u hasedau trethadwy y flwyddyn. Os bydd gwerth asedau sy'n weddill gan unigolyn yn disgyn o dan £20,000 trwy gyfrannu tuag at gostau gofal, yna byddent yn parhau i dalu cyfraniad o'u hincwm ond dim byd pellach o'u hasedau.
- Os yw **cyfanswm asedau unigolyn yn llai na £20,000**, ni fydd yn rhaid iddo dalu unrhyw beth am ei ofal o'i asedau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i bobl wneud cyfraniad tuag at eu costau gofal o'u hincwm o hyd.

44. Bydd y diwygiadau hyn yn berthnasol i bob oedolyn sy'n derbyn gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr, waeth beth fo'u hoedran. Pan weithredir y diwygiadau hyn, bydd tua 150,000 o bobl yn elwa'n uniongyrchol ar unrhyw un adeg. Bydd pawb yn elwa o'r sicrwydd a'r diogelwch, os bydd angen gofal personol arnyn nhw neu eu hanwyliaid, na fyddant bellach yn wynebu costau anrhagweladwy a diderfyn.

### **Astudiaeth Achos - Mary a Bob**

Mae Mary yn bensiynwr sy'n byw yn Sir Gaer gyda'i gŵr, Bob. Gyda'i gilydd, maen nhw'n berchen ar gartref sy'n werth £90,000 ac mae ganddyn nhw gynilion ar y cyd o £10,000. Gweithiodd y ddau yn galed trwy gydol eu hoes, cynllunio'n ofalus ar gyfer eu hymddeoliad ac mae ganddynt incwm wythnosol ar y cyd o bensiynau o £762. Mae gan Mary ddemtia ac mae'n derbyn gofal yn eu cartref, ond Bob yw ei phrif ofalwr. Yn anffodus, ar ôl blwyddyn mae Bob yn dioddef strôc ddifrifol ac mae angen i Bob a Mary fynd i ofal preswyl.

